# BTEC Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Lefel 2): cymorth addysgu a dysgu atodol

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen addysgu a dysgu atodol hon yn cyd-fynd â Manylebau a Briffiau Aseiniadau Enghreifftiol y BTEC yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Lefel 2). Gan gyfeirio at addysgu a dysgu, fe'i lluniwyd i ychwanegu at y fanyleb, sy'n cynnwys cyflwyniad i'r uned, crynodeb o'r uned, y meysydd addysgu allweddol (sgiliau sector, gwybodaeth, a sgiliau trosglwyddadwy/ymddygiad), cynnwys yr addysgu, meini prawf, gwybodaeth hanfodol ar gyfer asesu sy'n ymdrin â phob nod dysgu, sefyllfaoedd a awgrymir ar gyfer asesu, a'r canllawiau cyflwyno sy'n cefnogi cynlluniau addysgu, dysgu ac asesu.

## Y Pedwar Llwybr

| Diploma Pearson BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Hyfforddi Hyfforddiant Cylchol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif yr uned** | **Teitl yr uned** | **Oriau dysgu dan arweiniad** | **Math** | **Dull asesu** |
| **1** | Gweithio yn y Diwydiant Chwaraeon a Hamdden Egnïol | **120** | Gorfodol | Mewnol |
| **2** | Datblygu Gwybodaeth a Sgiliau'r Hyfforddwr Ymarfer | **60** | Gorfodol | Mewnol |
| **3** | Hyfforddiant Cylchol mewn Grŵp | **60** | Gorfodol | Mewnol |
| **4** | Gweithio fel Hyfforddwr Hyfforddiant Cylchol mewn Grŵp | **120** | Gorfodol | Mewnol Synoptig |

| Diploma Pearson BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Hyfforddi Ymarfer mewn Campfa) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif yr uned** | **Teitl yr uned** | **Oriau dysgu dan arweiniad** | **Math** | **Dull asesu** |
| **1** | Gweithio yn y Diwydiant Chwaraeon a Hamdden Egnïol | **120** | Gorfodol | Mewnol |
| **2** | Datblygu Gwybodaeth a Sgiliau'r Hyfforddwr Ymarfer | **60** | Gorfodol | Mewnol |
| **3** | Paratoi Cleientiaid ar gyfer Rhaglen Ymarfer Mewn Campfa | **60** | Gorfodol | Mewnol |
| **4** | Gweithio fel Hyfforddwr Campfa | **120** | Gorfodol | Mewnol Synoptig |

| Diploma Pearson BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Arwain Gweithgareddau Chwaraeon Plant) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif yr uned** | **Teitl yr uned** | **Oriau dysgu dan arweiniad** | **Math** | **Dull asesu** |
| **1** | Gweithio yn y Diwydiant Chwaraeon a Hamdden Egnïol | **120** | **Gorfodol** | **Mewnol** |
| **2** | Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion a Lleoliadau Cymunedol | **60** | **Gorfodol** | **Mewnol** |
| **3** | Arweinyddiaeth Chwaraeon | **60** | **Gorfodol** | **Mewnol** |
| **4** | Gweithio fel Arweinydd Chwaraeon | **120** | **Gorfodol** | **Mewnol Synoptig** |

| Diploma Pearson BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Cynorthwy-ydd Hamdden Chwaraeon a Hamdden Egnïol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif yr uned** | **Teitl yr uned** | **Oriau dysgu dan arweiniad** | **Math** | **Dull asesu** |
| **1** | Gweithio yn y Diwydiant Chwaraeon a Hamdden Egnïol | **120** | **Gorfodol** | **Mewnol** |
| **2** | Rôl a Chyfrifoldebau'r Cynorthwy-ydd Hamdden | **60** | **Gorfodol** | **Mewnol** |
| **3** | Sgiliau Gwasanaeth Cwsmeriaid y Cynorthwy-ydd Hamdden | **60** | **Gorfodol** | **Mewnol** |
| **4** | Gweithio fel Cynorthwy-ydd Hamdden | **120** | **Gorfodol** | **Mewnol Synoptig** |

## Unedau a rennir

## Uned 1: Gweithio yn y Diwydiant Chwaraeon a Hamdden Egnïol

Mae'r uned hon yn berthnasol i'r cymhwyster/cymwysterau canlynol:

BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Hyfforddi Hyfforddiant Cylchol)

BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Hyfforddi Ymarfer mewn Campfa)

BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Arwain Gweithgareddau Chwaraeon Plant)

BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Cynorthwy-ydd Hamdden Chwaraeon a Hamdden Egnïol)

| | Cyd-destun ac enghreifftiau | Rolau sector/ amgylcheddau |
|---|---|---|
| **Pam mae'r hyn a ddysgir yn yr uned hon yn bwysig ar gyfer gweithio yn y sector?** | Er mwyn deall y tirlun chwaraeon a gweithgarwch corfforol ehangach a chefnogi cyfranogiad. | • Datblygu chwaraeon<br>• Rheolaeth hamdden<br>• Gwyddor chwaraeon ac ymarfer<br>• Hyfforddwr ymarfer a ffitrwydd<br>• Hyfforddi chwaraeon<br>• Gwirfoddoli yn y gymuned |
| **Ym mha sefyllfaoedd gweithio y byddech chi'n ei ddefnyddio?** | Wrth benderfynu pa rôl y gallech ei chyflawni o ran hwyluso cyfranogiad.<br>Wrth weithio mewn amrediad eang o rolau chwaraeon a gweithgarwch corfforol. | |

## Termau a chysyniadau allweddol

Nod yr adran hon yw ymhelaethu ar y termau a'r cysyniadau allweddol a geir ym manyleb y cymhwyster, er mwyn cefnogi addysgu a dysgu cynnwys y cymhwyster.

### Chwaraeon a gweithgarwch corfforol

Er bod y termau hyn yn ymddangos gyda'i gilydd fel arfer, nid ydynt yn gyfnewidiadwy nac yn gyfystyr â'i gilydd. Defnyddir gweithgarwch corfforol yn derm rhychwantol i olygu unrhyw symudiad corfforol, gan gynnwys gweithgareddau anffurfiol megis cerdded i'r ysgol a bownsio ar drampolîn yn yr ardd, ond fe all gynnwys dulliau mwy trefnus hefyd (e.e. grŵp cerdded, beicio hamdden, cynllun chwarae yn ystod y gwyliau ac ati). Mae ystyron mwy ffurfiol i chwaraeon, sy'n ymwneud â rheolau a dymuniad (yn aml, ond nid bob tro) i wella sgiliau a/neu ffitrwydd. Bydd argymhellion ar gyfer cynnal ffordd iach o fyw yn cyfeirio at weithgarwch corfforol (y cyfeirir ato weithiau fel gweithgarwch cymedrol neu egnïol er mwyn cynnig arweiniad ychwanegol) yn hytrach na chwaraeon neu ymarfer, mewn ymdrech i gadarnhau bod pob symudiad yn llesol, ac nad oes angen i 'ffordd iach o fyw' gynnwys cyfranogi mewn 'chwaraeon'.

## Diwydiant chwaraeon a hamdden egnïol

Mae'r diwydiant chwaraeon a hamdden egnïol yn cwmpasu tair prif elfen, sef chwaraeon a hamdden, iechyd a ffitrwydd a'r awyr agored. Mae rhannu'r sector ehangach yn feysydd mwy penodol fel hyn yn caniatáu i'r diwydiant amlygu'r gwahanol fathau o ddiddordebau, profiadau a chymwysterau sy'n angenrheidiol er mwyn gweithio yn y gwahanol amgylcheddau. Yn ôl y diffiniad ffurfiol (gweler skillsactive.com), mae'r sector hefyd yn cynnwys gwaith chwarae a charafanio, ond nid yw'r ddau faes hyn mor berthnasol i'r cymhwyster hwn, ac felly gellir eu hanwybyddu.

## Mentrau chwaraeon, gweithgarwch corfforol a/neu iechyd

Yn y cyd-destun hwn, mae'r gair 'menter' yn cyfeirio at brosiect neu gynllun i wella sefyllfa gyfredol. Mae amryw byd o fentrau chwaraeon, gweithgarwch corfforol a/neu iechyd sydd i gyd â'r nod o helpu pobl i fod yn fwy egnïol a/neu wneud gwell dewisiadau er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant. Mae rhai o'r rhain yn fentrau cenedlaethol sy'n cael eu dylunio a'u hyrwyddo gan y Llywodraeth, e.e. Newid am Oes, tra bydd eraill efallai yn cael eu datblygu a'u rheoli ar raddfa lawer llai, ar gyfer grŵp neu ardal benodol neu nod a dargedir.

## DPP

Ystyr DPP yw Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac mae'n cyfeirio at y broses o gymryd camau cadarnhaol i wella a datblygu dealltwriaeth, sgiliau a galluoedd proffesiynol. Mae sawl math gwahanol o DPP: cymwysterau, gweithdai, cynadleddau, rhaglenni e-ddysgu, darllen llenyddiaeth broffesiynol, gwylio cydweithwyr mwy profiadol, ac ati.

## Asiantaethau chwaraeon a hamdden egnïol

Y cyrff hyn sy'n gyfrifol am elfennau penodol sy'n effeithio ar gyflwyno chwaraeon a gweithgarwch corfforol neu gyfranogiad ynddyn nhw. Maen nhw'n cynnwys sefydliadau megis: Cyrff Llywodraethu Chwaraeon Cenedlaethol (NGBs) sy'n gyfrifol am eu camp, o'r ddarpariaeth ar lawr gwlad i lefelau elît; grwpiau sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch, megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE); sefydliadau cenedlaethol a gyllidir gan y Llywodraeth, megis Sport England, a chyrff rhanbarthol neu leol, megis Partneriaethau Actif.

## Diogelu

Yng nghyd-destun chwaraeon a gweithgarwch corfforol, mae diogelu yn cyfeirio at y camau sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau diogelwch a lles pawb sy'n gweithio ac yn cyfranogi yn y sector, er mwyn sicrhau bod lle diogel gan oedolion a phlant i chwarae camp neu gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Bydd hyn yn cynnwys amrediad o elfennau gwahanol, o gamau ymarferol megis sicrhau bod cyfarpar a mannau gweithgarwch yn ddiogel i'w defnyddio, i sicrhau bod cyflwyniad y sesiwn yn briodol i'r rhai sy'n cymryd rhan, ac i gynyddu ymwybyddiaeth o bolisïau a phrosesau. Gall fod angen arferion diogelu ychwanegol neu benodol ar rai grwpiau, megis plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, yn dibynnu ar y sefyllfa.


BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon: Adnoddau Athrawon (2021) © Pearson Education Limited 2022

## Cysylltiadau ag Adnoddau'r Diwydiant

Lluniwyd yr adran Cysylltiadau ag Adnoddau'r Diwydiant i ddarparu amrediad o ddolenni/adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd a allai fod o gymorth wrth i chi addysgu a chyflwyno'r cymwysterau:

### Y Cyfryngau Cymdeithasol

@cimspa

@PearsonPESport

@Sport_England

@_UKCoaching

@bbcsport

@guardian_sport

@sport_wales

### Cyfnodolion/Gwerslyfrau

Auld, C, Cuskelly, G a Hoye, R, *Working with Volunteers in Sport*, Routledge, 2006
ISBN 9780415384537

www.leisureopportunities.co.uk – E-gylchgrawn sy'n cynnwys erthyglau a swyddi yn y diwydiant hamdden

https://www.womeninsport.org/wp-content/uploads/2017/10/From-Barriers-to-Benefits-FINAL-REPORT.pdf – Papur ynghylch rhwystrau a manteision cyfranogiad menywod a merched mewn chwaraeon

https://issuu.com/careersinsport/docs/get_into_sport_issue_2020 – Cylchgrawn ar-lein *Get into Sport*

### Podlediadau/Gwefannau

www.cimspa.co.uk – Sefydliad Siartredig Rheoli Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol

www.careers-in-sport.co.uk – Gyrfaoedd mewn chwaraeon

https://nationalcareers.service.gov.uk/job-categories/sports-and-leisure – Proffiliau swyddi ar gyfer amrediad eang o swyddi ym maes chwaraeon a hamdden egnïol

https://sportingopportunities.com/careers-in-sport-and-the-leisure-industry/ – Cymorth i'r sawl sy'n ystyried gyrfa mewn chwaraeon a hamdden egnïol, gan gynnwys cysylltiadau â gwefannau a chyfleoedd am swyddi mewn nifer o wledydd gwahanol

https://www.prospects.ac.uk/ – Cyngor ac arweiniad i'r sawl sy'n ystyried addysg uwch fel llwybr i rolau chwaraeon a hamdden egnïol

https://www.uksport.gov.uk/ – Ar gyfer newyddion, erthyglau ac adnoddau ynghylch chwaraeon perfformiad uchel yn y Deyrnas Unedig

https://www.outdoor-learning.org/ – Newyddion, swyddi, ymchwil, mentrau a datblygiad proffesiynol i'r sawl sy'n gweithio mewn rolau hamdden awyr agored

https://www.sportanddev.org/en/learn-more/health/sport-and-public-health-campaigns-0 – Yn gweithio ar draws y byd i wella cyfleoedd bywyd trwy ddatblygu chwaraeon

https://www.sportengland.org/ – Sut mae chwaraeon yn cael eu trefnu, eu hyrwyddo a'u rheoli yn Lloegr, gan gynnwys adnoddau sydd o gymorth i gefnogi diogelu, mentrau cenedlaethol ar gyfer grwpiau targed, a llawer mwy

www.parentsinsport.co.uk/2021/06/13/parents-in-sport-podcast-a-conversation-with-steve-sallis/ – Amrediad eang o adnoddau ar gyfer rhieni a hyfforddwyr, gan gynnwys cyfres o bodlediadau ynghylch amrywiaeth o wahanol bynciau trafod yn seiliedig ar chwaraeon a hamdden egnïol

https://cpduk.co.uk/industries/sport – Esboniad ynghylch DPP, yn ogystal â'r amrediad o gyrsiau DPP seiliedig ar chwaraeon a gynigir

https://thecpsu.org.uk/ – Newyddion, adnoddau, gweminarau ac erthyglau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant mewn chwaraeon

https://www.sportindustry.biz/ – gwefan newyddion byr allweddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant

Nod y dolenni isod yw dangos detholiad o ddiwydiannau/gyflogwyr sy'n enghreifftiau penodol ar gyfer maes topig a roddwyd: gan alluogi eich dysgwyr i gael gwybodaeth am y diwydiant sy'n gyfoes ac yn perthyn i'r byd go iawn, a'ch helpu chi i ddod â'r topig yn fyw.

Mater i chi, fel addysgwr proffesiynol, yw penderfynu a yw'r adnoddau hyn yn addas i chi a'ch myfyrwyr, a'r ffordd orau i'w defnyddio.

Nid yw Pearson yn gyfrifol am gynnwys unrhyw wefannau allanol. Mae'n hanfodol bwysig eich bod chi'n edrych ymlaen llaw ar bob gwefan cyn ei defnyddio er mwyn sicrhau bod yr URL yn gywir, yn berthnasol ac yn briodol o hyd. Awgrymir hefyd eich bod yn rhoi nodau tudalen i wefannau defnyddiol ac yn ystyried galluogi'r myfyrwyr i gael mynediad atynt trwy fewnrwyd yr ysgol/coleg.

| **Sport England** | |
|---|---|
| Disgrifiad | Mae'r wefan hon yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau helaeth, gan gynnwys ymgyrchoedd iechyd a ffitrwydd cenedlaethol, gwybodaeth ac adnoddau diogelu, cyrff llywodraethu cenedlaethol a chanolfan wybodaeth ar gyfer y cyrff hyn, gwybodaeth ar gyfer gwirfoddolwyr, a llawer mwy. |
| Yn cefnogi | Nodau dysgu A, B a D |
| Fformat | Gwefan |
| Sgrinlun |   |
| Dolen | [https://www.sportengland.org/](https://www.sportengland.org/) |

| Cyfleoedd Chwaraeon | |
|---|---|
| Disgrifiad | Mae’r wefan hon yn cynnwys digwyddiadau, gweithdai a chyflwyniadau gyrfaoedd, yn ogystal â hysbysebu swyddi a darparu adnoddau a chyngor ynghylch gweithio yn y sector chwaraeon a hamdden egnïol. |
| Yn cefnogi | Nod dysgu B |
| Fformat | Gwefan |
| Sgrinlun |  |
| Dolen | https://careers-in-sport.co.uk/ |

| Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon | |
|---|---|
| Disgrifiad | Dyma wefan bwrpasol ynghylch amddiffyn plant mewn chwaraeon, sy’n cynnwys amrywiol weminarau, cyngor, cymorth, newyddion, ac adnoddau i gefnogi’r rhai sy’n gweithio gyda phobl ifanc mewn chwaraeon a hamdden egnïol. |
| Yn cefnogi | Nod dysgu D |
| Fformat | Gwefan |
| Sgrinlun |   |
| Dolen | [https://thecpsu.org.uk/](https://thecpsu.org.uk/) |

## Uned 2: Datblygu Gwybodaeth a Sgiliau'r Hyfforddwr Ymarfer

Mae'r uned hon yn berthnasol i'r cymhwyster/cymwysterau canlynol:

BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Hyfforddi Hyfforddiant Cylchol)

BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Hyfforddi Ymarfer mewn Campfa)

| | **Cyd-destun ac enghreifftiau** | **Rolau sector/ amgylcheddau** |
|---|---|---|
| **Pam mae'r hyn a ddysgir yn yr uned hon yn bwysig ar gyfer gweithio yn y sector?** | Er mwyn cynorthwyo pobl sydd am ymarfer; deall systemau'r corff a'u hymateb i ymarfer, a sut i wasanaethu anghenion y cwsmer mewn modd diogel a phriodol. | • Ffitrwydd, e.e. hyfforddwr campfa, hyfforddwr grwpiau ymarfer, hyfforddwr personol<br>• Hyfforddi<br>• Gwirfoddoli<br>• Gwyddor chwaraeon ac ymarfer, e.e. seicoleg chwaraeon, therapi chwaraeon ac ati |
| **Ym mha sefyllfaoedd gweithio y byddech chi'n ei ddefnyddio?** | Wrth weithio'n uniongyrchol gyda chwsmeriaid mewn sefydliad neu gyfleuster chwaraeon a ffitrwydd.<br>Wrth weithio mewn amgylchedd lle byddai deall systemau'r corff a'u hymateb i ymarfer yn fanteisiol. | |

## Termau a chysyniadau allweddol

Nod yr adran hon yw ymhelaethu ar y termau a'r cysyniadau allweddol a geir ym manyleb y cymhwyster, er mwyn cefnogi addysgu a dysgu cynnwys y cymhwyster.

### Demograffeg

Mae'r term 'demograffeg' yn cyfeirio at ddata ystadegol ynghylch nodweddion poblogaeth benodol. Gallai hyn gynnwys ffactorau fel eu hoed, eu rhyw, eu hincwm, eu tarddiad ethnig, yr iaith/ieithoedd a siaredir ac ati. Gall ymwybyddiaeth o ddemograffeg grwp(iau) neu ardal(oedd) daearyddol penodol fod yn ddefnyddiol o ran caniatáu i benderfyniadau ystyried yr agweddau hyn, a sicrhau bod gwasanaethau yn gweddu orau i'r dymuniadau a'r anghenion sy'n aml yn cael eu pennu gan y ffactorau hyn neu'n gysylltiedig â nhw.

## Gwasanaeth cwsmeriaid

Mae hyn yn cyfeirio at gyfres o weithgareddau sydd i gyd wedi'u dylunio i gynnig y profiad gorau posibl o gynnych neu wasanaeth i gwsmeriaid, er mwyn bodloni eu disgwyliadau neu ragori arnyn nhw. Gall gwasanaeth cwsmeriaid llwyddiannus wella enw da ynghyd â theyrngarwch cwsmeriaid, tra gall gwasanaeth cwsmeriaid gwael danseilio hynny. Gall gwasanaeth cwsmeriaid gynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb, yn ogystal â chyswllt dros y ffôn, trwy e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol ac ati.

## Cynhwysiant cymdeithasol

Diffinnir hyn fel proses o wella telerau cyfranogi i'r aelodau hynny o'r gymdeithas sy'n aml o dan anfantais neu y mae eu safon byw yn is na'r safon 'gyffredin'. Gellir gwneud hyn trwy wella cyfleoedd, cynnig mynediad ehangach at adnoddau, gwrando ar eu dymuniadau a'u hanghenion penodol a darparu ar eu cyfer, parchu gwahaniaethau, a strategaethau eraill sy'n sicrhau bod yr unigolion/grwpiau hyn yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi a bod eu hawliau'n cael eu parchu.

## Gweithdrefnau gweithredu

Dyma gofnod o'r prosesau sydd ar waith gan sefydliad i sicrhau bod pawb yn cyflwyno gwasanaethau effeithiol a chyson bob amser. Yn aml, ysgrifennir gweithdrefnau gweithredu ar ffurf cyfres o gyfarwyddiadau fesul cam y gall cyflogeion eu dilyn i gyflawni tasg benodol, gan sicrhau bod safonau'r cwmni a'r diwydiant yn cael eu bodloni.

## Rheoli risg

Dyma'r broses o nodi risgiau posibl, eu dadansoddi, a chymryd camau i'w rheoli neu eu lliniaru. Mewn amgylchedd ffitrwydd, gall risgiau fod yn gysylltiedig â'r amgylchedd (e.e. peryglon llithro neu faglu), y cyfarpar (e.e. o ran ei gyflwr, arfer anniogel), ymddygiad y cwsmer (e.e. ffurf wael, gwrtharwyddion), ymddygiad yr hyfforddwr (cynllunio neu oruchwyliaeth amhriodol) neu ffactorau busnes a/neu enw da, megis camdrafod data cleientiaid, materion ariannol ac ati.

## Haenu risg

Mae hyn yn cyfeirio at y broses a ddilynir gan y cyfleuster neu'r gweithiwr ffitrwydd proffesiynol, cyn, yn ystod ac ar ôl i gleient ymgymryd ag unrhyw fath o weithgaredd ffurfiol, er mwyn sicrhau bod risgiau yn cael eu hamlygu a'u lliniaru. Mae yna brosesau cydnabyddedig (a elwir yn aml yn fodelau haenu risg) sy'n disgrifio proses y gellir ei dilyn, neu gall unigolyn/sefydliad greu ei fodel ei hun. Bydd modelau haenu risg, sy'n aml yn cael eu hysgrifennu ar ffurf siart llif, cyfres o gwestiynau i'w hateb neu gamau i'w dilyn, yn darparu dull gweithredu rhesymegol sy'n helpu gweithwyr ffitrwydd proffesiynol i sicrhau bod eu cleientiaid yn ddiogel bob amser.

## Cysylltiadau ag Adnoddau'r Diwydiant

Lluniwyd yr adran Cysylltiadau ag Adnoddau'r Diwydiant i ddarparu amrediad o ddolenni/ adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd a allai fod o gymorth wrth i chi addysgu a chyflwyno'r cymwysterau:

### Y Cyfryngau Cymdeithasol

@AnatomyOfFit

@OnlineAandP

@FitnessMagazine

@uk_fitpros

@Fiton_app

@LesMills

@onepeloton

@thebodycoach

### Gwerslyfrau/Cyfnodolion

https://journals.lww.com/acsm-healthfitness/pages/default.aspx – Cyfnodolyn Iechyd a Ffitrwydd ACSM (codir ffi danysgrifio, ond mae llawer o gynnwys am ddim ar y wefan hefyd)

Current, A, *Science of Strength Training: Understand the Anatomy and Physiology to Transform Your Body*, DK, 2021, 9780241389454

### Podlediadau/Gwefannau

https://www.ptdirect.com/training-design/anatomy-and-physiology – Amrediad o wybodaeth ac erthyglau am anatomeg a ffisioleg ar gyfer hyfforddwyr ffitrwydd

https://www.academyoffitnessprofessionals.com/personal-trainer-factsheets/ – Ffeithlenni sy'n gysylltiedig â hyfforddi personol

https://www.getbodysmart.com/ – Diagramau o brif systemau'r corff, wedi'u hanodi

https://www.fit4training.com/single-post/2017/04/11/anatomy-physiology-revision-online-resources-fit4training – Rhestr o wefannau ac adnoddau anatomeg a ffisioleg defnyddiol i gynorthwyo gweithwyr ffitrwydd proffesiynol

https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/zy62hv4/revision/2 – Trosolwg o effaith demograffeg ar gyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol

https://www.clubindustry.com/step-by-step/ten-commandments-exceptional-customerservice-fitness-industry – Nodweddion allweddol gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol mewn amgylchedd ffitrwydd

https://www.gymmaster.com/customer-service-importance/ – Sut i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid gwych yn y gampfa

https://cpdonline.co.uk/knowledge-base/health-and-safety/health-and-safety-guidance-for-gym-staff/ – Canllawiau iechyd a diogelwch ar gyfer staff campfa

https://www.healthline.com/health/coronary-artery-disease/risk-factors – Ffactorau risg ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon

https://www.cntw.nhs.uk/content/uploads/2017/12/HS-PGN-14-App9-Irwin-MorganRiskStratTool-V02-Iss-2-Oct-19.pdf – Tabl haenu risg Irwin a Morgan

https://www.acsm.org/blog-detail/acsm-certified-blog/2019/11/11/acsm-riskstratification-chart-download – Siart y mae modd ei lawrlwytho sy’n dangos proses haenu risg i’w dilyn

https://fitlegally.com/10-ethical-guidelines-fitness-professionals/ – Canllawiau moesegol ar gyfer gweithwyr ffitrwydd proffesiynol

Nod y dolenni isod yw dangos detholiad o ddiwydiannau/gyflogwyr sy’n enghreifftiau penodol ar gyfer maes topig a roddwyd: gan alluogi eich dysgwyr i gael gwybodaeth am y diwydiant sy’n gyfoes ac yn perthyn i’r byd go iawn, a’ch helpu chi i ddod â’r topig yn fyw.

Mater i chi, fel addysgwr proffesiynol, yw penderfynu a yw’r adnoddau hyn yn addas i chi a’ch myfyrwyr, a’r ffordd orau i’w defnyddio.

Nid yw Pearson yn gyfrifol am gynnwys unrhyw wefannau allanol. Mae’n hanfodol bwysig eich bod chi’n edrych ymlaen llaw ar bob gwefan cyn ei defnyddio er mwyn sicrhau bod yr URL yn gywir, yn berthnasol ac yn briodol o hyd. Awgrymir hefyd eich bod yn rhoi nodau tudalen i wefannau defnyddiol ac yn ystyried galluogi’r myfyrwyr i gael mynediad atynt trwy fewnrwyd yr ysgol/coleg.

| Get Body Smart | |
|---|---|
| Disgrifiad | Gwefan ryngweithiol sy'n defnyddio diagramau wedi'u hanodi i helpu i addysgu anatomeg a ffisioleg prif systemau'r corff. |
| Yn cefnogi | Nod dysgu A |
| Fformat | Gwefan |
| Sgrinlun |  |
| Dolen | https://www.getbodysmart.com/ |


BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon: Adnoddau Athrawon (2021) © Pearson Education Limited 2022

| Sylfaen wybodaeth y Coleg DPP Ar-lein | |
|---|---|
| Disgrifiad | Mae'r wefan hon yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau defnyddiol ynghyd â pheth cyngor cynhwysfawr ynghylch cadw cwsmeriaid a chydweithwyr yn ddiogel mewn campfa. |
| Yn cefnogi | Nod dysgu B |
| Fformat | Gwefan |
| Sgrinlun |  |
| Dolen | https://cpdonline.co.uk/knowledge-base/health-and-safety/health-and-safety-guidance-for-gym-staff/ |

| **Llyfrgell adnoddau ACSM** | |
|---|---|
| Disgrifiad | Gwybodaeth helaeth ar ffurf erthyglau, ffeithluniau, cyhoeddiadau, fideos a mwy, am amrediad eang o dopigau sy’n gysylltiedig ag iechyd, ffitrwydd, gwyddor chwaraeon a meddygaeth chwaraeon. |
| Yn cefnogi | Nodau dysgu A ac C |
| Fformat | Gwefan |
| Sgrinlun |  |
| Dolen | https://www.acsm.org/read-research/resource-library |


BTEC Lefel 2 yn Sgiliau’r Diwydiant Chwaraeon: Adnoddau Athrawon (2021) © Pearson Education Limited 2022

## Uned 3: Hyfforddiant Cylchol mewn Grŵp

Mae’r uned hon yn berthnasol i’r cymhwyster/cymwysterau canlynol:

[BTEC Lefel 2 yn Sgiliau’r Diwydiant Chwaraeon (Hyfforddi Hyfforddiant Cylchol)]

<table>
<tr><th></th><th>Cyd-destun ac enghreifftiau</th><th>Rolau sector/ amgylcheddau</th></tr>
<tr><td>Pam mae’r hyn a ddysgir yn yr uned hon yn bwysig ar gyfer gweithio yn y sector?</td><td>Er mwyn deall gwahanol ddosbarthiadau ymarfer mewn grŵp, gan ganolbwyntio ar hyfforddiant cylchol, gan fod yn ymwybodol o’r gwahanol fathau o sesiynau hyfforddiant cylchol, eu strwythurau a’u ffurfiau, a deall y rôl y gallant ei chyflawni o ran gwella a chynnal ffitrwydd corfforol.</td><td rowspan="2"><ul><li>Ffitrwydd, e.e. hyfforddwr campfa, hyfforddwr ymarfer mewn grŵp, hyfforddwr personol</li><li>Hyfforddi a gwirfoddoli, e.e. sesiynau hyfforddiant cylchol ar gyfer camp benodol</li><li>Rhaglenni atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff ac ymarfer ar bresgripsiwn a’u tebyg, e.e. rhai sydd wedi’u teilwra ar gyfer anghenion iechyd a ffitrwydd y cleient</li></ul></td></tr>
<tr><td>Ym mha sefyllfaoedd gweithio y byddech chi’n ei ddefnyddio?</td><td>Wrth weithio mewn campfa neu amgylchedd ffitrwydd, fel hyfforddwr campfa neu hyfforddwr ymarfer mewn grŵp.<br><br>I gynorthwyo cleientiaid a chwsmeriaid sydd am gynnwys dosbarthiadau ymarfer cylchol mewn grŵp yn eu rhaglenni ffitrwydd a hyfforddiant.</td></tr>
</table>

## Termau a chysyniadau allweddol

### Hyfforddiant egwyl

Mewn hyfforddiant egwyl cyflawnir ymarfer byr a dwys iawn am yn ail â chyfnodau o orffwys. Caiff y cylch gweithio/gorffwys hwn ei ailadrodd sawl gwaith, weithiau gan ddefnyddio’r un ymarfer (e.e. gwibio) ac weithiau gan ddefnyddio amrediad o wahanol ymarferion (e.e. neidiau twc, dringwyr mynydd, neidiau gwasg). Oherwydd eu harddwysedd, mae’r cyfnodau ymarfer yn fyr – oddeutu 30 eiliad yn aml – gyda chyfnod o orffwys neu ymarfer ymadfer ysgafn (e.e. cerdded) rhwng pob un. Mae ‘hyfforddiant egwyl’ yn derm cyffredinol sy’n cwmpasu amrediad o ddosbarthiadau/fathau o ymarfer (sydd i gyd yn debyg iawn i’w gilydd), ac yn cynnwys: Metafit, Tabata, HIIT, LIIT, GRIT ac ati.

### Cyflyru'r corff

Mae cyflyru'r corff yn sesiwn ymarfer ar gyfer y corff cyfan sy'n defnyddio amrediad o ymarferion i dargedu'r holl elfennau ffitrwydd corfforol er mwyn cryfhau, newid ffurf a thynhau'r corff. Mae'n gallu cyfuno ymarferion, fel hyblygrwydd, cryfder ac ymwrthiant, ac fel rheol mae'n cynnwys ymarferion tra egnïol a heriol yn ogystal â rhai sy'n canolbwyntio ar gryfder cyhyrol a dygnwch.

### Hyfforddiant cylchol

Mae hwn yn ddosbarth sydd fel arfer yn cynnwys rhwng 6 a 12 'gorsaf' wahanol gydag ymarfer gwahanol yn cael ei gyflawni ym mhob un. Bydd cyfnod gorffwys byr rhwng gorsafoedd a chyfnod gorffwys hirach cyn ailadrodd y cylch. Un o fanteision hyfforddiant cylchol yw amrywiaeth a hyblygrwydd; gellir dylunio cylchoedd i ddarparu ar gyfer unrhyw allu, profiad, angen a dymuniad. Gellir cynnal cylchoedd ym mhob amgylchedd bron, naill ai heb gyfarpar neu gan ddefnyddio cyfarpar gosod, cyfarpar wedi'i bweru, cyfarpar bach neu gyfarpar ar gyfer camp benodol.

### Gosodiad gorsafoedd

Gorsafoedd yw'r enw ar y gwahanol ymarferion sy'n rhan o gylch ymarfer. Bydd pob gorsaf yn canolbwyntio ar ymarfer neu weithgaredd gwahanol. Wrth gynllunio cylch, rhaid ystyried sut mae gosod y gorsafoedd – gan gynnwys pa orsafoedd i'w defnyddio, a sut i'w trefnu nhw er mwyn sicrhau defnydd diogel o ran y lle sydd ar gael ac mewn perthynas â'i gilydd. Fel rheol, trefnir y gorsafoedd er mwyn cynnal diddordeb y cyfranogwyr, felly bydd pob un yn targedu grwpiau gwahanol o gyhyrau a/neu'n sicrhau dull gweithredu cytbwys sy'n fodd i roi sylw i bob maes ffocws heb orlwytho nac achosi blinder mewn rhan benodol o'r corff.

### Cerdyn hyfforddiant cylchol

Mae nifer o resymau dros ddefnyddio cardiau hyfforddiant cylchol: maen nhw'n helpu'r cyfranogwyr i gofio beth i'w wneud ym mhob gorsaf, maen nhw'n fodd i gofnodi sgorau, amlygu technegau ymarfer da, awgrymu cynnydd, atchweliad ac addasiad, a gallant helpu'r hyfforddwr i gyflwyno'r sesiwn. Mae ffurf y cardiau hyfforddiant cylchol a'r angen amdanynt yn gallu newid yn dibynnu ar brofiad, gallu ac anghenion y cyfranogwyr a'r hyfforddwr.

### Modelu

Yn syml, ystyr modelu yw pan fydd yr hyfforddwr neu gyfranogwr arall yn arddangos yr ymarfer neu'r gweithgaredd sydd i'w gyflawni. Mae llawer o bobl yn dysgu orau trwy weld yr ymarfer yn ogystal â chlywed amdano, felly bydd cynnig model gweledol i gefnogi disgrifiad llafar yn helpu i sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn deall y gofynion. Mae modelu hefyd yn fodd o amlygu camgymeriadau neu gamsyniadau cyffredin, a chynnig awgrymiadau a chliwiau gweledol ynglŷn â sut i'w hosgoi neu eu cywiro, gan wella diogelwch ac effeithiolrwydd.

**Adlewyrchu**

Yn yr un modd â modelu, mae adlewyrchu yn cyfeirio at arddangos yr ymarfer neu'r weithred a gyflawnir, ond, fel mae'r gair yn awgrymu, mae'r hyfforddwr yn ddrych o symudiadau'r cyfranogwyr. Fe'i defnyddir yn aml mewn dosbarthiadau lle bydd yr hyfforddwr yn sefyll yn y blaen gan wynebu'r cyfranogwyr (e.e. ymarfer mewn grŵp gan ddefnyddio cerddoriaeth), a rhaid cyflwyno'r symudiadau fel drych-ddelwedd y dylai'r grŵp ei dilyn. Er enghraifft, pan fydd angen i'r grŵp fynd i'r dde, bydd yr hyfforddwr yn mynd i'r chwith, fel bod pawb yn symud 'i'r un cyfeiriad' neu os bydd angen i'r grŵp gamu ymlaen, bydd yr hyfforddwr yn camu'n ôl er mwyn symud 'i'r un cyfeiriad' eto â'r cyfranogwyr.

## Cysylltiadau ag Adnoddau'r Diwydiant

Lluniwyd yr adran Cysylltiadau ag Adnoddau'r Diwydiant i ddarparu amrediad o ddolenni/adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd a allai fod o gymorth wrth i chi addysgu a chyflwyno'r cymwysterau:

### Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter

@EMDForLife

@_ukactive

@stevekamb

@BarrysBootcamp

@CrossFit

@senada.greca

@thebodycoach

### Gwerslyfrau/Cyfnodolion

https://www.worldofbooks.com/en-gb/books/debbie-lawrence/advanced-circuit-training/9781472980410?gclid=CjwKCAjwieuGBhAsEiwA1Ly_nTjyQdglT7MFP4lNHx0S6j5OztnXGZ-0PyGJHZaPyq5eu0ThSTqB5BoCE2gQAvD_BwE – Canllaw cyflawn i gynllunio a hyfforddi sesiynau hyfforddiant cylchol

https://journals.lww.com/acsm-healthfitness/fulltext/2013/05000/high_intensity_circuit_training_using_body_weight_.5.aspx – Erthygl am ddim o Gyfnodolyn ACSM

## Podlediadau/Gwefannau

https://emduk.org/resources/whats-available/ – Y Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer ymarfer mewn grŵp, sy'n cynnwys rhestr gynhwysfawr o ddosbarthiadau ymarfer mewn grŵp.

https://www.spookynooksports.com/blog/manheim/how-to-choose-the-best-group-exercise – Amrywiaeth o wybodaeth ac ymarfer mewn grŵp, y manteision a'r gwahanol fathau o ddosbarthiadau

https://www.everyoneactive.com/content-hub/fitness/circuit-training/ – Beth yw hyfforddiant cylchol a'r rhesymau dros gymryd rhan?

https://stretchcoach.com/articles/circuit-training/ – Esboniad ar hyfforddiant cylchol, gan gynnwys rhai cylchoedd enghreifftiol

https://www.nerdfitness.com/blog/circuit-training-build-some-muscles-burn-some-fat/ – Syniadau am 15 cylch gwahanol, i gyd wedi'u cyflwyno ar ffurf fideos YouTube

https://www.sport-fitness-advisor.com/circuit-training-exercises.html – Amrediad eang o syniadau hyfforddiant cylchol ar gyfer agweddau gwahanol ar ffitrwydd yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer gwahanol chwaraeon

https://www.twinkl.co.uk/ – Trwy chwilio am hyfforddiant cylchol, ceir ystod eang o adnoddau addas ar gyfer gwahanol oedrannau a galluoedd, y bydd llawer ohonyn nhw ar gael trwy'r tanysgrifiad am ddim

https://www.bootcampideas.com/how-to-make-circuits-more-interesting/ – Llawer o syniadau am gylchoedd diddorol ac arloesol

https://emduk.org/class-music-need-to-knows-for-fitness-instructors/ – Trosolwg o ddefnyddio cerddoriaeth mewn dosbarthiadau ymarfer mewn grŵp

https://pplprs.co.uk/what-is-themusiclicence/ – Gwefan y corff diwydiant sy'n gyfrifol am roi trwyddedau cerddoriaeth

https://www.academyoffitnessprofessionals.com/how-to-develop-effective-client-relationships/ – Awgrymiadau ynghylch sut i ffurfio perthnasoedd gwaith effeithiol gyda chleientiaid

https://www.youtube.com/c/JuiceToya – Ystod eang o sesiynau ymarfer y gellir eu dilyn

https://www.bbc.co.uk/programmes/p09by3yy/episodes/downloads – Podlediadau sy'n canolbwyntio ar iechyd a ffitrwydd, wedi'u cyflwyno gan Dr Michael Mosley

https://www.lesmills.com/ – Sesiynau ymarfer ar-lein

https://fitonapp.com/ – Sesiynau ymarfer ar-lein


BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon: Adnoddau Athrawon (2021) © Pearson Education Limited 2022

Nod y dolenni isod yw dangos detholiad o ddiwydiannau/gyflogwyr sy’n enghreifftiau penodol ar gyfer maes topig a roddwyd: gan alluogi eich dysgwyr i gael gwybodaeth am y diwydiant sy’n gyfoes ac yn perthyn i’r byd go iawn, a’ch helpu chi i ddod â’r topig yn fyw.

Mater i chi, fel addysgwr proffesiynol, yw penderfynu a yw’r adnoddau hyn yn addas i chi a’ch myfyrwyr, a’r ffordd orau i’w defnyddio.

Nid yw Pearson yn gyfrifol am gynnwys unrhyw wefannau allanol. Mae’n hanfodol bwysig eich bod chi’n edrych ymlaen llaw ar bob gwefan cyn ei defnyddio er mwyn sicrhau bod yr URL yn gywir, yn berthnasol ac yn briodol o hyd. Awgrymir hefyd eich bod yn rhoi nodau tudalen i wefannau defnyddiol ac yn ystyried galluogi’r myfyrwyr i gael mynediad atynt trwy fewnrwyd yr ysgol/coleg.

| **Rhestr gynhwysfawr o arddulliau ymarfer mewn grŵp** | |
|---|---|
| Disgrifiad | Mae’r rhestr hon yn cynnwys disgrifiad byr o oddeutu 70 math gwahanol o ddosbarthiadau ymarfer mewn grŵp, o *Boogie Bounce* i *Lishi*, o Pilocsio (*Piloxing*) i Ddawnsio Tap. |
| Yn cefnogi | Nod dysgu A |
| Fformat | Gwefan |
| Sgrinlun |   |
| Dolen | https://emduk.org/resources/whats-available/ |

| Sut i wneud cylchoedd yn fwy diddorol | |
|---|---|
| Disgrifiad | Mae'r wefan hon yn cynnwys ystod eang o erthyglau a syniadau i'ch helpu i ddylunio a chyflwyno sesiynau hyfforddiant cylchol diddorol ac arloesol. |
| Yn cefnogi | Nod dysgu B |
| Fformat | Gwefan |
| Sgrinlun |  |
| Dolen | https://www.bootcampideas.com/how-to-make-circuits-moreinteresting/ |


BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon: Adnoddau Athrawon (2021) © Pearson Education Limited 2022

<table>
<tr><th colspan="2">Sut i ddatblygu perthnasoedd effeithiol gyda chleientiaid</th></tr>
<tr><td>Disgrifiad</td><td>Awgrymiadau syml ond effeithiol ynghylch meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol mewn amgylchedd ymarfer mewn grŵp</td></tr>
<tr><td>Yn cefnogi</td><td>Nod dysgu C</td></tr>
<tr><td>Fformat</td><td>Gwefan</td></tr>
<tr><td>Sgrinlun</td><td>
1 – It Begins With First Impressions<br><br>
It's commonly said that you've less than 3 seconds to make a great first impression so time really does count here!<br><br>
• Smile, shake hands, make eye contact and greet using the name of your client.<br>
• Pay attention to your professional appearance and conduct. Look smart, maintain tidy hair, have clean clothes and behave and speak in a way that reflects your position.<br>
• Ask open questions that build a connection.<br>
• Stand or sit confidently.<br>
• Turn friendship on quickly by treating your client how you'd like to be treated, always with an optimistic outlook.<br>
• Be punctual for booked appointments and avoid interruptions.<br><br>
In brief, ask yourself 'Have I made a connection with my client?'<br><br>
2 – Be a Positive Role Model<br><br>
To get off to the best possible start with your client it's vital you present yourself positively. After all, your job as a Fitness Instructor or Personal Trainer is about more than simply prescribing exercise. Your client will look upon you as a role model, a leader and a source of knowledge and expertise to help them accomplish their goals.
</td></tr>
<tr><td>Dolen</td><td>https://www.academyoffitnessprofessionals.com/how-todevelop-effective-client-relationships/</td></tr>
</table>

## Uned 4: Gweithio fel Hyfforddwr Hyfforddiant Cylchol mewn Grŵp

Mae'r uned hon yn berthnasol i'r cymhwyster/cymwysterau canlynol:

[BTEC Lefel 2 yn Sgiliau'r Diwydiant Chwaraeon (Hyfforddi Hyfforddiant Cylchol)]

<table>
<tr><th></th><th>Cyd-destun ac enghreifftiau</th><th>Rolau sector/ amgylcheddau</th></tr>
<tr><td>Pam mae'r hyn a ddysgir yn yr uned hon yn bwysig ar gyfer gweithio yn y sector?</td><td>Er mwyn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i gynllunio, hyfforddi a myfyrio'n llwyddiannus ar eich dosbarthiadau hyfforddiant cylchol mewn grŵp, gan sicrhau eu bod nhw'n bodloni anghenion a dymuniadau'r holl gyfranogwyr.</td><td rowspan="2">• Ffitrwydd, e.e. hyfforddwr campfa, hyfforddwr ymarfer mewn grŵp, hyfforddwr personol<br>• Hyfforddi a gwirfoddoli, e.e. sesiynau hyfforddiant cylchol ar gyfer camp benodol<br>• Rhaglenni atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff ac ymarfer ar bresgripsiwn a'u tebyg, e.e. rhai sydd wedi'u teilwra ar gyfer anghenion iechyd a ffitrwydd y cleient</td></tr>
<tr><td>Ym mha sefyllfaoedd gweithio y byddech chi'n ei ddefnyddio?</td><td>Wrth weithio fel hyfforddwr campfa, hyfforddwr personol, neu hyfforddwr ffitrwydd mewn grŵp, gyda grwpiau o bobl sydd am gymryd rhan mewn dosbarthiadau hyfforddiant cylchol fel rhan o'u rhaglen iechyd a ffitrwydd.</td></tr>
</table>

## Termau a chysyniadau allweddol

### Ystyriaethau cynllunio

Cyn dechrau cynllunio unrhyw sesiwn, mae gwybodaeth benodol y mae'n rhaid ei chael er mwyn gallu cynllunio'n briodol ac yn effeithiol. 'Ystyriaethau cynllunio' yw'r enw ar y darnau hyn o wybodaeth, gan fod rhaid eu cymryd nhw i ystyriaeth wrth gynllunio'r sesiwn. Mae hyn yn cynnwys elfennau megis nifer, oedran, lefelau gallu, profiad blaenorol, anghenion a dymuniadau'r cyfranogwyr, yn ogystal â nodau'r sesiwn, y cyfleuster, yr amgylchedd, y man gweithio, y cyfarpar sydd ar gael, cerddoriaeth ac ati.

### Cydbwysedd cyhyrol

Mae'r cyhyrau yn gweithio gyda'i gilydd fel pâr (gweithydd a gwrthweithydd) a chyda'r cyhyrau o'u cwmpas (synergydd) i achosi symudiad mewn cymal. Mae cydbwysedd cyhyrol yn cyfeirio at gynnal cydbwysedd wrth ddefnyddio'r cyhyrau hyn, i ddal y cymal ynghanol y symudiad er mwyn amddiffyn rhag niwed a sicrhau symudiad effeithlon. Bydd ymarferion sy'n canolbwyntio ar gyhyr neu grŵp o gyhyrau penodol heb ganiatáu amser gorffwys nac ymadfer, neu ymarferion a gyflawnir â thechneg neu aliniad anghywir yn llai effeithiol ac yn cynyddu risg anafiadau.

## Pennu nodau CAMPUS

Defnyddir yr acronym CAMPUS yn aml i gynorthwyo â gosod nodau **c**yraeddadwy, **a**mserol, **m**esuradwy, **p**enodol ac **u**chelgeisiol/**s**ynhwyrol. Gellir defnyddio CAMPUS i hoelio'r sylw ac amlygu nodau sy'n gyraeddadwy o fewn y paramedrau sydd ar gael. Un enghraifft o'r acronym CAMPUS yw hyn, mae dewisiadau eraill yn ddilys os cânt eu hesbonio a'u rhoi ar waith yn glir, i gefnogi gosod nodau.

## Sgrinio iechyd

Rhaid i bob hyfforddwr ymarfer gymryd camau rhesymol i ddiogelu ei gyfranogwyr. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â sicrhau bod y man gweithio a'r cyfarpar yn ddiogel ac yn gweithio'n dda, fod rhaid iddo gadarnhau na fydd neb sy'n dymuno cymryd rhan yn wynebu risg gorfforol wrth wneud hynny. Sgrinio iechyd yw'r term sy'n disgrifio'r camau y bydd hyfforddwyr yn eu cymryd i gael gwybod a oes gan gyfranogwr gyflyrau iechyd isorweddol a allai waethygu neu ddwysáu yn sgil gweithgarwch corfforol. Gall hyfforddwyr gynnwys gwiriadau ffurfiol megis mesur pwysedd gwaed, holi am hanes meddygol ac ati a/neu ofyn cwestiynau (oes gan rywun unrhyw anafiadau?) cyn dechrau'r sesiwn, i'w galluogi i ohirio, atgyfeirio neu addasu'r gweithgaredd a gynlluniwyd er mwyn sicrhau bod y cyfranogwyr mor ddiogel â phosibl.

## Asesu risg dynamig

Tra bydd asesiad risg 'traddodiadol' yn cael ei gynnal cyn dechrau'r sesiwn, bydd asesu risg dynamig yn digwydd ar hyd y sesiwn. Mae'n golygu bod yr hyfforddwr yn ymwybodol o beryglon posibl, yn sylwi ar sefyllfaoedd anniogel wrth iddyn nhw ddatblygu ac yn cymryd camau yn y fan a'r lle i unioni'r sefyllfa. Mae cwblhau a chofnodi asesiad risg cyn y sesiwn yn unol â pholisi'r sefydliad yn bwysig, ond bydd asesu risg mewn modd dynamig yn ystod y sesiwn yn troi'r rhagamcaniadau a'r tybiaethau papur hyn yn strategaethau diogelwch amser real.

## Canllawiau argymelledig cenedlaethol ar gyfer gweithgarwch corfforol ac iechyd

Mae Prif Swyddogion Meddygol y Deyrnas Unedig yn cyhoeddi canllawiau sy'n disgrifio faint o weithgarwch corfforol y dylai gwahanol grwpiau o'r boblogaeth ei wneud bob dydd i gadw'n iach. Rhennir y boblogaeth yn gategorïau: o enedigaeth i 5 mlwydd oed, 5–18 mlwydd oed, oedolion dros 19 oed, oedolion anabl, a menywod beichiog ac ôl-enedigol. Gall y cyhoedd ddefnyddio'r wybodaeth hon i helpu i lywio eu gweithgarwch corfforol ac fe'i defnyddir hefyd gan lunwyr polisïau, gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill sy'n gweithio yn y diwydiant chwaraeon a hamdden egnïol.

### Cromlin aerobig

Mae'r gromlin aerobig yn cyfeirio at 'siâp' cyfradd curiad calon cyfranogwyr mewn sesiwn ymarfer. Beth bynnag yw'r sesiwn a gynhelir (mae'r gair 'aerobig' yn cyfeirio at y ffordd y mae'r corff yn defnyddio ocsigen i gynhyrchu tanwydd, ac nid at ddosbarth aerobeg yn benodol), bydd hyfforddwyr fel arfer yn anelu at gynyddu cyfradd waith y cyfranogwyr o dipyn i beth o'r ymgynhesu i lefel egnïol uwch (sy'n cyflymu cyfradd curiad y galon) nes cyrraedd 'pegwn'. Tybir mai'r pegwn hwn, pan fydd cyfradd curiad y galon wedi cyrraedd rhwng 70% ac 80% o'i huchafswm, yw'r adeg orau i wella ffitrwydd aerobig. Ar ôl cynnal y pegwn hwn am gyfnod, bydd arddwysedd yr ymarfer yn dechrau lleihau tan yr ymoeri, sy'n helpu cyfradd curiad y galon i ddychwelyd i'w lefel arferol.

### Gwrtharwyddion absoliwt i ymarfer

Mae'r term hwn yn cyfeirio at gyflyrau iechyd penodol sy'n golygu na ddylai rhywun ymgymryd ag ymarfer. Mae'r rhain yn cynnwys cnawdnychiad myocardiaidd neu newidiadau electrocardiograffig, rhwystr llwyr ar y galon, diffyg gorlenwad acíwt y galon, angina ansefydlog, a gorbwysedd direolaeth. Dylai hyfforddwyr ddod i wybod am y cyflyrau hyn trwy ddefnyddio dulliau sgrinio iechyd cyn ymarfer a rhaid iddynt gyfeirio'r cyfranogwr at feddyg neu weithiwr proffesiynol perthnasol tebyg cyn rhoi cynnig ar unrhyw ymarfer.

## Cysylltiadau ag Adnoddau'r Diwydiant

### Y Cyfryngau Cymdeithasol

@stackmedia

@muscleforlife

@techno_gym

@thebodycoach

@onepeloton

### Gwerslyfrau/Cyfnodolion

https://www.enhertsccg.nhs.uk/sites/default/files/pathways/Physical%20Activity%20-%20Referral%20&%20Signposting_0.pdf – Gwrtharwyddion absoliwt i ymarfer

### Podlediadau/Gwefannau

https://www.verywellfit.com/what-is-the-aerobic-zone-3436575 – Cyfraddau curiad y galon yn y parth aerobig a manteision y parth

https://www.exercise.com/learn/designing-group-fitness/ – Awgrymiadau ar gyfer cynllunio dosbarth ymarfer mewn grŵp

https://www.bootcampideas.com/the-simple-guide-to-planning-sessions-for-mixedfitness-levels/ – Sut i gynllunio ar gyfer lefelau ffitrwydd cymysg

https://www.shape.com/fitness/workouts/how-build-perfect-circuit-workout – Sut i lunio cylch

https://opt.net.au/optimum-life/difference-fitness-and-health/ – Y gwahaniaeth rhwng ffitrwydd ac iechyd

https://www.gov.uk/government/publications/physical-activity-guidelines-infographics – Ffeithluniau canllawiau gweithgarwch corfforol

https://www.slideshare.net/TodaysFitnessTrainer/understanding-the-elevencomponents-of-fitness – Elfennau ffitrwydd

https://www.verywellfit.com/f-i-t-t-principle-what-you-need-for-great-workouts-1231593 – Egwyddorion FITT

https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/ztntfrd/revision/1 – Egwyddorion hyfforddi SPORT

https://www.youtube.com/watch?v=iB0dJwAWdtQ – Joe Wicks – ymgynhesu cyn sesiwn HIIT

https://www.youtube.com/watch?v=RDsdplsAqK8 – Joe Wicks – ymoeri ar ôl sesiwn HIIT

https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Exercise_zones.png – Parthau cyfradd curiad y galon

https://www.verywellfit.com/details-on-circuit-training-1230837 – Enghreifftiau o sesiynau hyfforddiant cylchol

https://www.insure4sport.co.uk/blog/risk-assessment-tips-for-personal-trainers/ – Awgrymiadau ynghylch asesu risg ar gyfer hyfforddwyr personol

https://www.nfpt.com/resources/client-screening-questions – Cwestiynau sgrinio iechyd a gwybodaeth i hyfforddwyr

https://www.insure4sport.co.uk/blog/what-makes-a-great-fitness-instructor/ – Beth sy'n gwneud hyfforddwr ffitrwydd gwych?

https://www.acefitness.org/education-and-resources/professional/expertarticles/5980/how-to-make-an-impression-in-your-group-fitness-class – Awgrymiadau ynghylch sut i fod yn hyfforddwr ffitrwydd gwych

https://www.bidsketch.com/blog/everything-else/personal-performance/ – Sut i adolygu eich perfformiad eich hun (nad yw'n ymwneud yn benodol â ffitrwydd)

https://www.perfectgym.com/en/blog/business/6-helpful-fitness-survey-ideas-examples – Syniadau ac enghreifftiau o arolwg barn a dulliau/ffurflenni gwerthuso ar gyfer cleientiaid campfa

Nod y dolenni isod yw dangos detholiad o ddiwydiannau/gyflogwyr sy’n enghreifftiau penodol ar gyfer maes topig a roddwyd: gan alluogi eich dysgwyr i gael gwybodaeth am y diwydiant sy’n gyfoes ac yn perthyn i’r byd go iawn, a’ch helpu chi i ddod â’r topig yn fyw.

Mater i chi, fel addysgwr proffesiynol, yw penderfynu a yw’r adnoddau hyn yn addas i chi a’ch myfyrwyr, a’r ffordd orau i’w defnyddio.

Nid yw Pearson yn gyfrifol am gynnwys unrhyw wefannau allanol. Mae’n hanfodol bwysig eich bod chi’n edrych ymlaen llaw ar bob gwefan cyn ei defnyddio er mwyn sicrhau bod yr URL yn gywir, yn berthnasol ac yn briodol o hyd. Awgrymir hefyd eich bod yn rhoi nodau tudalen i wefannau defnyddiol ac yn ystyried galluogi’r myfyrwyr i gael mynediad atynt trwy fewnrwyd yr ysgol/coleg.

| **Dylunio sesiynau ffitrwydd mewn grŵp** | |
|---|---|
| Disgrifiad | Awgrymiadau hawdd eu dilyn, ynghyd â dolenni i adnoddau defnyddiol, ar gyfer cynllunio sesiynau ffitrwydd mewn grŵp ar gyfer cleientiaid sy’n amrywio o ran gallu. |
| Yn cefnogi | Nod dysgu A |
| Fformat | Gwefan |
| Sgrinlun |  |
| Dolen | https://www.exercise.com/learn/designing-group-fitness/ |

| Cwestiynau sgrinio cleientiaid | |
|---|---|
| Disgrifiad | Mae’r wefan hon yn cynnwys gwybodaeth helaeth i hyfforddwyr proffesiynol, gan gynnwys y cwestiynau sgrinio iechyd hyn. |
| Yn cefnogi | Nod dysgu B |
| Fformat | Gwefan |
| Sgrinlun | <br>NFPT National Federation of PROFESSIONAL TRAINERS  TRAINER CERTIFICATION  CE COURSES  TRAINER RESOURCES  SHOP<br>**General Client Information**<br>This may sound a bit cliche, but a quality personal fitness trainer will evaluate a client's total lifestyle, not just their exercise needs. There is more to health than just exercise alone. The following is a *brief* overview of each of the General Client Information topics. These are included in the NFPT Client Screening Questionnaire and respective forms.<br>**Age** – Knowledge of client age is useful in determining health risks, exercise intensity and duration, as well as for computing maximum heart rate.<br>**Gender** – This information is usually needed for demographic reasons. Gender also is a consideration in determining health risks as is indicated on the Cardiovascular Risk Profile Questionnaire.<br>**Sleeping Habits** – Poor sleeping habits can reduce recovery effectiveness, lower Growth Hormone release, and can cause mental fatigue and inability to concentrate. Sleep is the body's built-in recovery mechanism. A protein builds up in the cerebrospinal fluid during waking hours that can only be broken down during sleep. Moreover, sleeping abnormalities can usually be directly linked to stress and improper diet.<br>**Water Intake** – Not drinking enough water leaves the client susceptible to dehydration during exercise. Also, prolonged low water intake can lead to a survival water retention in the body.<br>**Occupation** – Knowing what type of daily activities your client performs will assist you in determining total caloric intake, meal timing, exercise scheduling, and possible lifestyle change recommendations. Occupational stress may also be a consideration. |
| Dolen | [https://www.nfpt.com/resources/client-screening-questions](https://www.nfpt.com/resources/client-screening-questions) |

| **Syniadau am arolygon ffitrwydd** | |
|---|---|
| Disgrifiad | Mae’r wefan hon yn cynnwys amrediad eang o arolygon, ffurflenni adborth a holiaduron enghreifftiol ar gyfer gweithwyr ffitrwydd proffesiynol ynghyd ag awgrymiadau a gwybodaeth am yr angen i gasglu adborth gan gleientiaid. |
| Yn cefnogi | Nod dysgu C |
| Fformat | Gwefan |
| Sgrinlun | <br>Businesses Features Resources Contact<br>**Example Questions for a Fitness Class Instructor Survey**<br>*Did we do a good job today? Let us know about your recent class instructor experience, your feedback is invaluable.*<br>What fitness class did you attend (name date and time)?<br>Were you able to comfortably work out in the space given to you?<br>Please give the name of your instructor<br>How many times have you attended this class before?<br>Were you physically able to keep up with the intensity of the class?<br>Did your instructor help motivate you?<br>Did you feel you could ask questions to the instructor?<br>Were the exercise instructions clear and understandable?<br>Were there exercise alternatives given (for people who needed a lower impact version of exercise)?<br>Did the instructor help out struggling members?<br>What was your favorite part of the class?<br>What could be improved?<br>Please add any other thoughts you may have.<br>**Pro tip**: When it comes to consumer behavior, you can bet that convenience is king 98% of the time. Therefore when curating your survey |
